

Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda Chyngor Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen

Dydd Mercher, 14 Tachwedd am 2.30pm

Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion yn ardal Pontypridd

Yn bresennol:

Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant

Lisa Howell, Uwch Swyddog Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Martyn Silezin, Swyddog Strategaeth 14-19 oed

Sophie Nicholls, Swyddog Graddedig Carfan Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Nifer y disgyblion yn bresennol = 14

Esboniodd Esther Thomas (ET) bod y Cyngor yn awyddus i ad-drefnu rhai o'r ysgolion ym Mhontypridd. Byddai'r newidiadau yn cynnwys creu ysgolion 3-16 newydd ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen, ysgol gynradd Gymraeg newydd yn Rhydfelen a symud darpariaeth chweched dosbarth ysgolion i chweched dosbarth mwy o faint yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog a Choleg y Cymoedd.

Roedd ET wedi manylu ar y cynnig a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar ddisgyblion Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, sef cau'r ysgol a dod yn rhan o Ysgol 3-16 y Ddraenen Wen. Byddai'r disgyblion yn rhan o ysgol fwy o faint a fyddai dim rhaid iddyn nhw symud wrth gyrraedd oedran ysgol uwchradd. Esboniodd ET, er y byddai'r plant yn rhan o un ysgol, byddai'r disgyblion iau ar wahân i'r disgyblion hŷn, ond byddai modd iddyn nhw ddefnyddio rhai cyfleusterau arbenigol yn yr ysgol, fel y neuadd Addysg Gorfforol, y labordai gwyddoniaeth a'r ystafelloedd TGCh, o oedran iau.

Esboniodd ET mai pwrpas y cyfarfod gyda'r disgyblion heddiw oedd i'r Cyngor glywed a chofnodi safbwyntiau'r disgyblion am y cynigion, gan fod eu barn yn bwysig iawn i'r Cyngor.

Gofynnodd ET i'r disgyblion a oedden nhw'n gwybod unrhyw beth am y cynigion eisoes.

Esboniodd ET beth wnaeth yr Awdurdod Lleol yn ardal Cwm Rhondda y llynedd a bod yr Awdurdod Lleol yn bwriadu defnyddio cyllid newydd ar gyfer ardal Pontypridd.

C. Pam mae angen i chi gau'r ysgol?

A. Rhaid i ni gau'r ysgol i greu ysgol 3-16 newydd. Mae gyda Llywodraeth Cymru reolau y mae rhaid i ni eu dilyn pan fyddwn ni am wneud rhywbeth fel hyn. Rhan o'r broses yna yw i ni gau'r ddwy ysgol a chreu ysgol 3-16 newydd ar gyfer ardal y Ddraenen Wen.

C. Ble bydd yr ysgol newydd?

A. Bydd yr ysgol newydd yma. Mae'r adeiladau'n agos at ei gilydd nawr. Byddwn ni'n defnyddio ein map ac yn tynnu llinell goch newydd o gwmpas y ddau safle i greu un ffin fwy ar gyfer un ysgol. Efallai y byddwn ni'n adeiladu rhai elfennau newydd ac yn ailfodelu rhannau eraill o'r ysgol i'w gwneud yn ysgol newydd.

C. Sut mae'n mynd i weithio?

A. Dydyn ni ddim wedi penderfynu ar sut bydd yr adeiladau'n edrych eto, oherwydd yn gyntaf rhaid i Gabinet y Cyngor gytuno a ydyn ni'n cael bwrw ymlaen â'r prosiect. Y cynnig yw i'r ysgol gael un Pennaeth dros yr ysgol gyfan. Byddwch chi yn eich dosbarthiadau eich hun gyda phlant yr un oedran â chi. Byddwch chi'n cael defnyddio'r cyfleusterau sydd yn yr ysgol arall, fel ystafelloedd a chyfleusterau gwyddoniaeth/cyfrifiadurol/Addysg Gorfforol. Efallai eich bod chi'n defnyddio rhywfaint o'r cyfleusterau yna ar hyn o bryd, ond bydd modd i chi gyd-weithio'n fwy aml yn un ysgol. Bydd disgyblion ac athrawon yn adnabod ei gilydd drwy'r ysgol gyfan.

C. Sawl plentyn fydd yno?

A. Bydd plant o ffrwd Saesneg Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn dod yma hefyd. Bydd nifer y disgyblion yr ysgol gyfan yn fawr iawn oherwydd bod yr oedran yn ymestyn o 3 i 16. Y capasiti ar gyfer yr ysgol gyfan fydd 1,260. Os ydych chi am ei rhannu'n gynradd ac uwchradd, bydd 540 o ddisgyblion cynradd a 720 o ddisgyblion ym mlwyddyn 7-11. Mae hyn yn swnio fel nifer fawr o'i gymharu â faint o blant rydych chi'n eu gweld nawr, ond mewn gwirionedd bydd yn debyg oherwydd bydd yr un nifer o ddisgyblion yn eich dosbarth o hyd.

C. Pryd byddwn ni'n gwybod a yw'r ysgol newydd am fynd yn ei blaen?

A. Mae'r ymgynghoriad yma yn cael ei gynnal nawr gyda chi, y staff, y llywodraethwyr a'ch rhieni, ac ym mhob ysgol arall a fydd yn cael ei heffeithio. Bydd hyn yn parhau tan ddiwedd mis Ionawr y flwyddyn nesaf. Bydd Cabinet y Cyngor wedyn yn derbyn adroddiad sy'n cynnwys eich safbwyntiau a byddan nhw'n penderfynu p'un a fydd y cynigion yn symud ymlaen i'r cam nesaf ai peidio. Mae'n debyg y byddan nhw'n penderfynu ar hyn ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf. Os ydyn nhw'n penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion, yna bydd cam 'rhybudd statudol' lle mae modd i bawb leisio eu barn a/neu wrthwynebiadau am fis arall. Bydd hynny wedyn yn cael ei adrodd yn ôl i'r Cabinet a bydd penderfyniad terfynol ynglŷn â bwrw ymlaen â'r cynlluniau ai peidio. Efallai y bydd hyn yn digwydd erbyn diwedd mis Ebrill. Fydd yr ysgol newydd ddim yn cael ei sefydlu tan 2022 felly mae'n debyg y bydd hyn yn effeithio ar bob un ohonoch chi.

C. Fydd yr un athrawon gyda ni?

A. Mae'n debygol iawn, bydd. Efallai bydd athrawon sydd am ymddeol neu symud i ysgolion newydd, ond mae'n debyg y bydd llawer o'r athrawon yr un

fath. Bydd y Corff Llywodraethu newydd ar gyfer yr ysgol 3-16 yn penderfynu ar y staff.

C. Fydd yr un Pennaeth gyda ni?

A. Dydyn ni ddim yn gwybod. Bydd y Llywodraethwyr yn penderfynu ar hynny. Efallai y bydd, ond efallai fydd e ddim.

C. A fydd llawer o blant ym mhob dosbarth?

A. Fydd ddim llawer o blant yn yr un ystafell ddosbarth. Dydyn ni ddim yn gwybod sawl plentyn fydd yn dod yma yn union, ond efallai y bydd yn haws trefnu'r ysgol yn well gyda mwy o ddisgyblion yma, a byddai modd creu dosbarthiadau ychwanegol fel bod lle i bawb yma. Ddylai ddim bod dros 30 disgybl mewn un dosbarth.

C. A fydd yr ystafelloedd dosbarth yn fwy o faint?

A. Mae rhai o'r ystafelloedd dosbarth yma eisoes yn edrych yn neis ac mae'r ysgol yn edrych yn eithaf newydd mewn rhai manau. Pan rydyn ni'n adeiladu manau newydd mewn ysgolion, rhaid i ni ddarparu ystafelloedd dosbarth mewn meintiau penodol. Mae'r llyfr Bwletin Adeiladu rydyn ni'n ei ddefnyddio yn nodi yn union pa mor fawr mae rhaid i'r ystafelloedd dosbarth fod pan fyddwn ni'n adeiladu rhai newydd. Fydd yr ystafelloedd dosbarth ddim yn fach.

C. A fydd pob ystafell yn wahanol?

A. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn wahanol nawr. Mae gyda'r athrawon eu hystafelloedd eu hunain ac maen nhw'n eu haddurno nhw yn ôl eu dymuniad. Os ydyn ni'n adeiladu ystafelloedd dosbarth newydd, mae rhai pethau yn gorfod bod yr un fath. Er enghraifft, rhaid i ni roi paneli gwydr yn y drysau, ond yn y bôn, mae'r ystafelloedd dosbarth i gyd yr un peth ac mae modd i athrawon eu haddurno yn ôl eu dymuniad, e.e. gydag arddangosfeydd ac ati. Rydyn ni'n sicrhau bod cyfleusterau goleuo a seilwaith TGCh da a byrddau C-Touch. Mae'r bwrdd C-Touch yn symud i fyny ac i lawr fel bod modd i'r holl ddisgyblion ei gyrraedd, yn enwedig disgyblion iau. Bydd gwahanol offer y tu allan a byrddau a chadeiriau o feintiau gwahanol ar gyfer disgyblion o wahanol oedrannau.

C. Sut olwg fydd ar yr ystafelloedd dosbarth?

A. Byddan nhw'n brydferth. Mae gyda chi ysgol hyfryd eisoes. Oes unrhyw beth hoffech chi ei newid yn eich ystafelloedd dosbarth ar y funud?

A. Na, ddim mewn gwirionedd.

A. Bydd sinciau ac ati ar uchderau gwahanol mewn ystafelloedd dosbarth gwahanol, byrddau, cadeiriau, offer TGCh, offer storio ac ati. Yna bydd yr ystafell ddosbarth yn cael ei llenwi â'ch creadigaethau hyfryd.

C. *Ble byddai'r ystafelloedd dosbarth yn ein hysgol newydd?*

- A. Dydyn ni ddim yn gwybod eto. Rydyn ni yma i glywed eich syniadau, ond dydyn ni ddim yn gwybod eto yn union sut bydd yr ysgol newydd yn edrych. Mewn ychydig wythnosau, bydd syrfewyr yn dod yma i weld pa adeiladau sydd orau i'w defnyddio a'r hyn sydd angen ei newid. Bydd pensaer yn creu cynllun ar gyfer yr ysgol newydd fel bod modd i ni weld lle byddai'r ystafelloedd dosbarth newydd. Dydw i ddim yn meddwl bod angen i ni wneud llawer o waith yma, ond oherwydd bydd yr adran gynradd yn fwy o faint, bydd angen i ni roi ystafelloedd dosbarth ychwanegol yn rhywle. Pan fydd y cynlluniau gyda ni, byddwn ni'n dod â darluniau i chi eu gweld a rhoi eich barn i ni arnyn nhw.

C. *Pa bethau newydd fydd gyda ni?*

- A. Offer TGCh newydd, fel rydyn ni wedi'i grybwyll eisoes. Toiledau newydd, dodrefn newydd.
- A. Bydd yn dibynnu ar sut mae'r adeiladau'n cael eu defnyddio hefyd. Mae'n dibynnu os yw'ch neuadd yn ddigon mawr i bawb. Bydd llawer o bethau newydd at ddant pawb.

C. *Ble bydd yr holl offer yn cael ei gadw?*

- A. Rydyn ni'n ceisio adeiladu rhywfaint o le storio ym mhob ystafell ddosbarth. Bydd llefydd eraill yn yr ysgol lle bydd modd i ni adeiladu lle storio ar gyfer pethau fel offer iechyd a diogelwch. Mae angen cael manau penodol i storio pethau. Mae lle storio ar gyfer ystafelloedd dosbarth yn bwysig i chi hefyd. Bydd lle i bopeth.

C. *Ydyn ni am gael ail lawr?*

- A. Unwaith eto, dydyn ni ddim yn gwybod eto. Fydd dim ail lawr ar y bloc yma, ond os ydyn ni'n adeiladu bloc newydd efallai y bydd ail lawr. Rydyn ni wedi adeiladu llawer o wahanol ysgolion newydd gydag un llawr ac eraill gyda dau lawr, a hynny gan fod llai o le i adeiladu arno. Mae angen i ni sicrhau bod gyda chi ddigon o le i chwarae yn yr awyr agored. A fyddai ots gyda chi gael ysgol newydd ag un neu ddau lawr?
- A. Disgybl – Hoffen ni gael dau lawr.

C. *Pam?*

- A. Disgybl – Os ydw i wedi blino, mae modd i mi gerdded lawr llawr a themlo'n fwy effro.

C. *A fydd lifft gyda ni?*

- A. Os byddwn ni'n adeiladu dau lawr, yna bydd lifft gyda chi heb os. Os yw'n un llawr, fydd dim lifft gyda chi.

Q. Pam fyddai angen lifft arnoch chi?

A. Disgybl – Ar gyfer pobl anabl

A. Da iawn. Mae angen i ni feddwl am y dyfodol, achos efallai y bydd disgyblion sydd angen help i gael mynediad at ail lawr.

C. A fydd cae pêl droed yno o hyd?

A. Bydd. Fydden ni byth yn cael gwared â'ch mannau chwarae. Mae angen lle arnoch i ymarfer corff, felly po fwyaf o le y cewch chi i roi cynnig ar ymarfer corff neu chwaraeon newydd, y gorau.

B. A fydd ystafell Rhaglen Gymorth i Ddisgyblion o hyd – lle rydyn ni'n siarad â'r athrawon am ein teimladau a'n hemosiynau?

A. Yr athrawon fydd yn penderfynu ar hyn, ar sail anghenion y disgyblion. Mae angen i ni sicrhau bod y plant yn hapus, ac mae'n bwysig eich bod chi'n siarad wrth i chi symud drwy'r blynyddoedd yn yr ysgol 3-16.

A. Mewn llawer o ysgolion uwchradd mae yna lefydd arbennig i hyn.

A. Mae modd i ni roi'r lle i chi, ond bydd y staff yn penderfynu os bydd yn cael ei ddefnyddio at y diben yna. Efallai y bydd modd i blant hŷn helpu hefyd.

C. Beth fydd yn digwydd i'r pwll nofio?

A. Bydd y pwll yn aros. Dydyn ni ddim yn bwriadu cael gwared â'r pwll, felly dylai bod modd i chi ei ddefnyddio pan rydych chi yn yr ysgol, ac ar ôl yr ysgol hefyd.

C. Sut olwg fydd ar y ffreutur?

A. Sut hoffech chi i'r ffreutur edrych o'i gymharu â sut mae'n edrych ar hyn o bryd?

A. Disgybl – Cadeiriau mwy cyfforddus a dim meinciau.

Lliwgar yn hytrach nag un lliw diflas.

Dim meinciau achos rhaid i chi eu gosod drwy'r amser.

Yn debyg i'r ysgol uwchradd, ffreutur ddylai fe fod, nid neuadd hefyd.

A. Rydyn ni'n ceisio gwneud hynny mewn ysgolion eraill. Mae angen i ni gael lle ar y safle i chwarae yn yr awyr agored hefyd. Dyna pam rydyn ni'n tueddu i gyfuno'r ffreutur a'r neuadd yn un lle wedi'i rannu. Os hoffech chi, rhowch syniadau i ni am liwiau neu ddodrefn a fyddai'n gweddu yno.

C. Sut bydd y bwyd?

A. Fydd y bwyd ddim yn newid mewn gwirionedd.

C. A fydd clybiau ar ôl ysgol o hyd?

- A. Os oes llawer o glybiau ar ôl ysgol ar hyn o bryd, yna mae'n debyg y byddan nhw'n parhau. Dyma gynghori'r athrawon i sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau tebyg.

C. A fydd y plant hŷn yn cymysgu gyda'r plant eraill?

- A. Efallai. Mae yna gyfleoedd i'r plant hŷn eich helpu chi i ddarllen, ac ati. Os oes gyda chi frodyr neu chwiorydd hŷn yn y bloc drws nesaf, efallai y byddwch yn eu gweld. Fydd dim plant hŷn yn crwydro o gwmpas ble rydych chi achos byddan nhw yn eu gwersi. Ydych chi'n hapus i'r plant hŷn fod yno?

- A. Disgybl - Ydyn, cyhyd â'u bod nhw yn eu hystafelloedd dosbarth eu hunain.

- A. Byddwch chi bob amser yn ddiogel a bydd gyda chi eich toiledau eich hun. Os yw rhai ohonoch chi yn rhagori mewn Mathemateg ac ati, yna efallai y bydd modd i chi gael gwerau gyda blwyddyn 7.

C. A fydd toiledau cymysg?

- A. Beth sydd gyda chi nawr?

- B. Disgybl – Mae gyda ni doiledau ar wahân ar y funud, ond mae toiledau'r babanod yn gymysg.

- A. Lle rydyn ni wedi gosod toiledau cymysg ar gyfer disgyblion uwchradd, mae modd i chi weld ardal y sinc. Lle mae toiledau cymysg, mae'r drysau'n mynd o'r llawr i'r nenfwd fel eu bod yn breifat. Roedd llawer o bobl yn poeni pan wnaethon ni hynny, ond maen nhw'n llwyddiannus iawn yn yr ysgolion hynny ar hyn o bryd. Mae llai o fwlio a llai o blant yn camymddwyn mewn toiledau erbyn hyn.

C. A fydd yn cymryd 10 munud i gyrraedd y toiled a dod yn ôl?

- A. Mae toiledau mewn ysgolion newydd yn agos iawn at yr ystafelloedd dosbarth. Dyna sut byddwn ni'n dechrau ar y gwaith cynllunio, ond lle does dim modd i ni wneud hynny, rhaid i ni sicrhau bod y toiledau yn ddigon agos.

C. A fydd disgyblion hŷn ar Gyngor yr Ysgol?

- A. Byddai modd i Gyngor yr Ysgol gynnwys disgyblion 3-16 oed wedyn. I ddod i benderfyniadau ar gyfer yr ysgol gyfan, byddai angen barn llawer o ddisgyblion arnoch chi. Efallai y bydd grwpiau llai o faint, ond byddai'r staff a'r Pennaeth yn penderfynu ar hynny.

C. A fydd plant hŷn yn dod i'n disgos?

- A. Ydych chi eisiau i'r plant hŷn fod yn eich disgos? Y staff fyddai'n penderfynu. Efallai fyddai'r plant hŷn ddim am ddod. Byddai modd i chi benderfynu ar hynny mewn cyfarfod Cyngor yr Ysgol. Ydych chi eisiau rhywbeth i bawb neu rhywbeth i un rhan o'r ysgol yn unig?

C. Beth am fwlio? A fydd bwlio yn cynyddu ac a fydd hi'n anoddach i'w reoli? Symudodd llawer o'n plant o Ysgol Gynradd Heol y Celyn oherwydd bwlio, a nawr bydd disgyblion yr ysgol yna gyda ni. Rydyn ni'n poeni am hyn.

A. A yw bwlio yn digwydd yma?

A. Disgybl – Nac ydy.

A. Dydy staff yr ysgol yma ddim yn caniatáu i fwlio ddigwydd. Bydd angen i ni reoli'r sefyllfa yma fel bod disgyblion ddim yn cael eu bwlio. Mae bwlio'n aml yn digwydd mewn mannau lle does dim modd i bobl eich gweld chi. Rydyn ni'n dylunio adeiladau fel bod dim modd i bobl guddio mewn llefydd a bwlio pobl. Rhaid i chi ddweud wrth aelod o staff os ydych chi'n cael eich bwlio bob amser. Diogelwch ein plant yw ein blaenoriaeth.

C. Dywedodd fy mrawd bod yna ddim oedolion ar yr iard yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen.

A. Dylai fod pobl ar yr iard yn goruchwylio.

A. Mae gyda llawer o ysgolion lefydd diogel i chi fynd iddyn nhw. Lle mae cymysgedd o oedrannau, rydyn ni wedi canfod bod disgyblion yn tawelu oherwydd eu bod nhw yng nghwmni eu brodyr a chwiorydd iau, ac ati.

C. A fyddan nhw yn dal i regi a bod yn gas fel maen nhw yn y parc?

A. Bydd gyda chi ardaloedd chwarae ar wahân hefyd ac efallai bydd gyda chi amseroedd chwarae ar amserau gwahanol er mwyn lleihau hyn. Does dim modd i'r un ohonon ni gael gwared â rhegi. Mae'n anodd atal pobl rhag rhegi, ond bydd y staff yn rheoli hyn ac yn sicrhau eich bod chi'n ddiogel.

C. A fydd y gwaith adeiladu yn tarfu arnon ni?

A. Bydd yn tarfu arnoch chi rywfaint oherwydd eich bod chi mewn ysgol lle byddwn ni'n adeiladu blociau eraill, addurno mannau neu eu dymchwel nhw, ac ati. Rwy'n addo y bydd yr adeiladwyr yn gosod ffensys mawr er mwyn cadw'r staff a'r disgyblion ar wahân i'r gwaith. Byddai'r adeiladwyr ar y safle yn bobl dda a bydden nhw'n dod i'ch gweld chi i esbonio'r hyn sy'n digwydd. Os oes gyda chi gwynion neu faterion rydych chi am eu codi, bydd modd i'ch staff gwyno a dweud wrth yr adeiladwyr i roi'r gorau i'w gwaith. Bydd yn bwysig bod yn dawel pan fydd arholiadau'n cael eu cynnal, felly mae angen i ni sicrhau bod pawb yn cyfathrebu hyd gorau eu gallu. Bydd rheolwr y prosiect yn gyfarwydd â chi ac os oes unrhyw waith sy'n rhy swnllyd neu sy'n tarfu arnoch chi, bydd modd i'ch staff a rheolwr y prosiect ddatrys y materion yma. Yr unig adeiladwyr sy'n cael bod ar ein safleoedd ni yw'r rhai a fydd yn gweithio gyda ni ac yn gwrandao arnon ni.

C. Pryd bydd y gwaith adeiladu yn dechrau? A fydd yn ystod gwyliau'r haf?

A. Efallai y bydd rhywfaint o waith yn ystod gwyliau'r haf, ond byddai cynllun prosiect ar gyfer yr ysgol gyfan. Byddai modd i ddisgyblion ymweld â'r safle a gweld y gwaith adeiladu. Mae angen i ni sicrhau bod modd i chi barhau i ddysgu tra mae'r gwaith yn digwydd, felly fydd dim gwyliau ychwanegol i chi yn anffodus!

C. Beth fydd enw'r ysgol?

A. Bydd raid i lywodraethwyr yr ysgol gyflwyno awgrymiadau yn seiliedig ar eich safbwyntiau. Yna, byddan nhw'n argymhell yr enw i'r Cyngor. Wedyn, bydd y Cynghorwyr yn penderfynu ar enw terfynol yr ysgol.

C. Beth fydd y wisg a'r logo?

A. Beth hoffech chi iddyn nhw fod?

A. Disgybl – Hanner ein gwisg/logo ni neu hanner un Ysgol Gynradd Heol y Celyn.
Coch.

A. Bydd y llywodraethwyr a staff yr ysgol yn penderfynu.

C. A gawn ni gyfle i weld yr ysgol cyn iddi agor?

A. Rwy'n gobeithio y byddwch chi'n rhan o'r broses gyfan yn hytrach na dim ond gweld yr ysgol ar y diwedd. Mae modd i ni newid lliwiau ac ati wrth i'r broses fynd yn ei blaen. Byddai modd i'r disgyblion helpu i ddewis lliwiau'r toiledau ac ati.

C. Rydyn ni'n gwybod yr hyn hoffem ni ei gael yn ein hysgol newydd. A fyddwn ni'n cael lleisio barn ar yr ysgol?

A. Os caiff y cynigion eu derbyn, byddwn ni'n dangos ffotograffau i chi o'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni hyd yn hyn ar gynlluniau eraill a bydd modd i chi helpu i benderfynu.

Diolchodd ET i bawb am eu mewnbwn ac am baratoi at y cyfarfod.

ET - Mae hyn wedi bod yn wych ac roedd eich cwestiynau yn synhwyrol iawn.

Yn gyffredinol, ydych chi'n meddwl bod hwn yn beth da neu'n beth gwael?

8 = da

1 = ddim yn dda

5 = ddim yn siŵr.